ReAct

Nodiadau Cyfarwyddyd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd hyn yn ofalus cyn anfon eich cais am gyllid ReAct.

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Cyfrinachedd	3
Gwybodaeth gyffredinol	5
Hyfforddiant Galwedigaethol (A) – Ffurflen 1	7
Cymorth Ychwanegol (B) – Ffurflen 1	9
Cofiwch - Helpwch ni i'ch helpu chi	11
Camau nesaf - Hyfforddiant Galwedigaethol	12
Adran y Cyflogwr (C) – Ffurflen 3	13
Cofiwch - Helpwch ni i'ch helpu chi	16
Camau nesaf – Cymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr	17

Hysbysiad Preifatrwydd

Mae angen i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth gennych er mwyn eich galluogi i dderbyn cymorth gan y rhaglen ReAct a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae prosesu'r cais hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus i weinyddu'r cyllid a bydd yn rhan o'n cytundeb gyda chi.

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch cais am gyllid.

Mae darparu eich data yn ofyniad angenrheidiol er mwyn ichi allu cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'n rhaid llenwi pob blwch ar ffurflenni'r rhaglen ReAct oni nodir yn wahanol; mae hyn yn cynnwys cwestiynau lle mae 'Gwell gennyf beidio â dweud' yn opsiwn.

Caiff yr holl wybodaeth y byddwch yn ei darparu ei storio a'i defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data bresennol (y Ddeddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data).

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut y caiff yr wybodaeth ei defnyddio a phwy fydd yn ei gweld.

Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth a sut y byddant yn defnyddio'r wybodaeth?
Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti y tu allan i'n sefydliad, ac eithrio fel a nodir isod.

Mae eich gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio yn y ffyrdd a ganlyn:

- Bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio ac yn rhannu eich gwybodaeth â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, fel y bo'n briodol, er mwyn:
    - Prosesu eich cais a dyrannu cyllid,
    - Bodloni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau sy'n cael eu cyllido gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop,
    - Monitro ac adrodd ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau/rhaglenni a nifer y bobl o wahanol grwpiau sy'n derbyn cymorth (ee gwahanol oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd),
    - Cynnal prosesau cyllido, cynllunio, monitro ac arolygu hyfforddiant a dysgu,
    - Cynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol.

- Dim ond i gefnogi'ch cais a rhoi'r cyngor gorau posibl ichi y caiff eich gwybodaeth ei rhannu â Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith;

- Gydag archwilwyr i asesu p'un a yw'r prosiect/rhaglen wedi dilyn y gweithdrefnau cywir;

- Er mwyn cysylltu eich cofnodion â ffynonellau data eraill a gedwir gan adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i hwyluso gwaith ymchwil i effaith y prosiect ar y rheini a gymerodd ran. Gallai'r ffynonellau data hyn gynnwys set ddata Canlyniadau Addysgol Hydredol, data Gyrfa Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, cofnodion Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yr Arolwg o'r Llafurlu, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cronfa Gymdeithasol Ewrop o'r Bobl a Adawodd;

- I'n helpu i ddeall pa mor effeithiol yw'r cynllun, efallai y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt â sefydliadau ymchwil cydnabyddedig, er mwyn iddynt siarad â chi am eich profiadau. Ni fydd y sefydliadau'n cysylltu â phawb sy'n rhan o'r cynllun. Os bydd ymchwilwyr yn cysylltu â chi, bydd pwrpas y cyfweliad yn cael ei egluro ichi a gallwch ddewis peidio â chael eich cyfweld. Bydd y sefydliadau ymchwil yn dileu eich manylion cyswllt ar ôl cwblhau'r gwaith ymchwil hwn. Mae'n bosibl y bydd y sefydliadau ymchwil hefyd yn cael fersiynau di-enw o'r data (fersiynau nad ydynt yn ei gwneud yn bosibl eich adnabod) at ddibenion ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfleoedd cyfartal;

- Bydd asiantaethau atal twyll yn ei ddefnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn cadarnhau pwy ydych chi. Os canfyddir eich bod wedi twyllo, mae'n bosibl na fydd gwasanaethau, cyllid a swyddi penodol ar gael i chi yn y dyfodol. Gallwch gael rhagor o fanylion ynghylch sut y byddwn ni a'r asiantaethau atal twyll hyn yn defnyddio eich gwybodaeth, ac am eich hawliau o ran diogelu eich data, drwy gysylltu â DataProtectionOfficer@llyw.cymru.

Diogelu a chadw data

Mae Llywodraeth Cymru'n dilyn gweithdrefnau caeth wrth storio a datgelu'r wybodaeth a rowch inni. O dan Ganllawiau Ewropeaidd, mae'n ofynnol i ni gadw eich manylion am 10 mlynedd ar ôl i brosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop gau yn 2023 hy. tan 2033. Pan na fydd arnom angen cadw eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau ein bod yn cael gwared ar y cyfan yn ddiogel.

Bydd y cyfrifiaduron a'r gweinyddwyr sy'n cael eu defnyddio gennym i storio eich gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth data mae gennych chi hawl i:

- gael mynediad i'r data personol rydyn ni'n eu prosesu amdanoch chi;
- cywiro gwallau yn y data;
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar y prosesu (o dan rai amgylchiadau);
- gofyn am i'ch data gael eu 'dileu' (o dan rai amgylchiadau);
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:
Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer / Cheshire
SK9 5AD
Ffôn: 01625 545 745 Ffacs: 01625 524 510
E-bost: casework@ico.gsi.gov.uk

Sut i gysylltu â ni

Am ragor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw amdanoch a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, e-bostiwch reactenquiries@llyw.cymru neu ffoniwch 03000 255888. Gallwch hefyd gysylltu â dataprotectionofficer@llyw.cymru os oes gennych bryderon ynghylch sut y mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu, neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Beth all ReAct ei wneud i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith ar ôl cael eich gwneud yn ddi-waith?

Rydym yn darparu pecyn o gymorth i helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, goresgyn rhwystrau a gwella'u gobeithion o ddychwelyd i'r gwaith cyn gynted â phosibl.

Mae'r pecyn hwn yn ychwanegol at ystod eang o gymorth gan Lywodraeth Cymru a'n sefydliadau partner megis Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith, a darperir y pecyn mewn cydweithrediad â'r rhaglenni a'r sefydliadau hyn. Mae rhaglen ReAct yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n dair rhan:

(A) Grant hyfforddi galwedigaethol ar gyfer pobl sydd angen diweddaru eu sgiliau i ddychwelyd i'r gwaith.
(B) Cymorth ychwanegol i oresgyn unrhyw rwystrau i hyfforddiant galwedigaethol.
(C) Cyfraniad at gyflogau a help gyda chostau hyfforddi ar gyfer cyflogwyr sy'n recriwtio.

Nodwch na ellir darparu cymorth (A) a (C) ar yr un pryd. A dim ond pobl sy'n derbyn cymorth (A) all dderbyn cymorth (B).

Mae'r llyfryn hwn yn rhoi trosolwg ichi o feini prawf cymhwystra ReAct. Caiff pob cais ei asesu'n unigol, a hynny yn erbyn gofynion ac amcanion cyffredinol rhaglen ReAct. Llywodraeth Cymru sydd â'r gair olaf o ran cymeradwyo.

ReAct – Pwy sy'n gymwys?

Mae'r cymorth hwn ar gael i berson:

- sydd wedi cael ei wneud yn ddi-waith yn y tri mis diwethaf o ganlyniad i ddiswyddo. Ar adeg prosesu'r cais, rhaid ichi fod yn ddi-waith a heb weithio (16 awr yr wythnos neu fwy) ers chwe wythnos neu fwy rhwng dyddiad colli eich swydd a dyddiad gwneud cais am gyllid ReAct. Fodd bynnag, o ran unigolion sydd eisoes wedi cael Grant Hyfforddiant Galwedigaethol ReAct o fewn y tri mis diwethaf ac sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Galwedigaethol a gyllidir gan ReAct, byddwn yn caniatáu 3 mis ychwanegol o'r dyddiad colli swydd ar gyfer derbyn cais am Grant Recriwtio i Gyflogwyr gan gyflogwr;
- sydd wedi cael hysbysiad colli swydd cyfredol sydd â dyddiad gadael o fewn y tri mis nesaf;
- sy'n byw yng Nghymru adeg derbyn yr hysbysiad colli swydd ac yn byw yng Nghymru adeg cyflwyno'r cais, ac yn meddu ar hawl cyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU;
- nad ydynt yn dilyn unrhyw hyfforddiant sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys, ymysg mathau eraill o hyfforddiant, rhaglenni dysgu seiliedig ar waith Llywodraeth Cymru.

Os ydych chi, neu os ydych erioed wedi bod yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd ar y cwmni lle rydych wedi colli eich swydd, mae'n annhebygol y byddwch yn gymwys i dderbyn cymorth. Hefyd, os ydych yn gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd cyfredol cwmni gweithredol, a hynny ar adeg gwneud y cais, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn cyllid ReAct. Cysylltwch â'r Porth Sgiliau i Oedolion ar 0800 028 4844 i drafod eich amgylchiadau unigol.

Y broses ymgeisio

Mae ReAct yn defnyddio proses ymgeisio a hawlio ar gyfer pob un o'r tair rhan a amlinellir uchod. Golyga hyn fod yn rhaid ichi wneud cais am grant a chael ein cymeradwyaeth ni cyn ichi ddechrau ar eich swydd newydd, eich hyfforddiant, neu cyn mynd i unrhyw gostau. Mae rheoliadau cyllid Ewropeaidd golygu nad oes gennym ddisgresiwn o ran gweithredu'r rheol hon - ac ni ellir ystyried ceisiadau nad ydynt yn cydymffurfio â hyn.

Unwaith y caiff eich cais ei gymeradwyo, gallwch ddechrau gweithio. Fe gewch chi lythyr wrthym yn eich hysbysu o'n penderfyniad. Os na fyddwch yn dechrau o fewn 30 niwrnod i'r dyddiad dechrau a nodwyd ar eich ffurflen gais, caiff y cynnig grant ei dynnu'n ôl a chaiff llythyr ei anfon yn eich hysbysu am hyn. Mae'n ofynnol i'ch cyflogwr/darparwr hyfforddiant ein hysbysu eich bod wedi dechrau drwy gwblhau ffurflen ddechrau ReAct. Ar ddiwedd eich hyfforddiant, neu ar ddiwedd bob tri mis yn eich cyflogaeth newydd, bydd eich cyflogwr/darparwr hyfforddiant yn gofyn ichi wrthlofnodi a dyddio ffurflen hawlio er mwyn inni allu talu'r grant. Dylech wirio'r manylion ar y ffurflen hon yn ofalus - a dim ond os ydynt yn gywir y dylech ei llofnodi.

Dim ond ar ôl i gyfnod yr hyfforddiant ddod i ben y dylai'r ffurflen hon cael ei llofnodi, neu ar ôl i'ch cyflogaeth gyrraedd y dyddiad perthnasol sydd ar y ffurflen hawlio. Dwedwch wrthym ar unwaith os gofynnir ichi lofnodi'r ffurflen hawlio cyn diwedd eich hyfforddiant neu cyn y dyddiad cyflogaeth perthnasol sydd ar y ffurflen. Bydd angen copïau arnom o unrhyw dystysgrifau sydd wedi'u dyfarnu o ganlyniad i'ch hyfforddiant. Tra'ch bod yn derbyn grant ReAct, drwy dderbyn ein cynnig grant rydych yn cytuno y gallwn wneud taliad yn uniongyrchol i'ch darparwr hyfforddiant neu gyflogwr newydd.

Problemau cyffredin all achosi oedi i'ch cais

Mae'r ffurflen gais yn gofyn am lawer o wybodaeth ac efallai fod peth o'r wybodaeth honno'n ymddangos yn amherthnasol, ond mae ei hangen er mwyn cydymffurfio gofynion y cyllid Ewropeaidd sy'n cefnogi ReAct. Os bydd cwestiynau heb eu hateb, neu wedi'u hateb yn annigonol, caiff y ffurflen gais ei dychwelyd ichi. Dylech groesi allan unrhyw gamgymeriadau a nodi'r wybodaeth gywir uwchben. Nodwch lythrennau blaen eich enw wrth unrhyw gywiriadau i ddangos eich bod yn ymwybodol eu bod wedi cael eu gwneud.

Yn anffodus, ni allwn dderbyn ffurflenni cais lle bo hylif cywiro wedi'i ddefnyddio i ddiwygio manylion ar y ffurflen. Er mwyn inni ystyried eich cais, rhaid ichi gynnwys y ddogfennaeth gefnogol y gofynnir amdani ar y ffurflen. Fodd bynnag, rydym yn deall y gall fod sefyllfaoedd lle nad yw'r bosibl cael gafael ar lythyr colli swydd. Mewn achosion o'r fath, efallai y gallwn dderbyn dystiolaeth arall eich bod wedi colli swydd, megis llythyr gan y Gweinyddwyr a benodwyd, neu hyd yn oed erthygl newyddion yn sôn am gau'r cwmni. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844**.

Cofiwch...

Mae'n rhaid i ni gymeradwyo eich cais cyn y gallwch ddechrau dilyn yr hyfforddiant neu gyflogaeth. Ni allwn dalu am hyfforddiant neu gyflogaeth a ddechreuodd cyn i'ch cais gael ei ystyried a'i gymeradwyo. Ni allwn, chwaith, ad-dalu costau yr eir iddynt cyn i geisiadau cael eu cymeradwyo. Bydd methu â chydymffurfio ag amodau cyllid Ewropeaidd sydd ynghlwm wrth ReAct yn golygu na allwn ystyried eich cais.

Ffurflen 1

Gallwn gyfrannu tuag at gost cyrsiau hyfforddiant galwedigaethol i roi'r sgiliau newydd ichi y mae Gyrfa Cymru wedi pennu bod eu hangen arnoch i wella'ch gobeithion o gael swydd newydd. Gallwn wneud cyfraniad tuag at hyfforddiant y cytunir arno o hyd at 100% o gostau'r hyfforddiant, hyd at uchafswm o £1,500. Byddwn yn ystyried ffactorau megis cost, cyfnod a lleoliad y cwrs, a ph'un a yw'n berthnasol i'r economi leol. Lle y bo'n bosibl, dylai hyfforddiant arwain at gymwysterau sy'n berthnasol i waith ac sy'n ffitio yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru. Byddwn yn ystyried pob cais yn unigol.

Caiff y sgiliau sydd eu hangen eu trafod, eu cytuno a'u nodi yn ystod Cyfweliad Arweiniad i Oedolion gyda chynghorydd o Gyrfa Cymru, a fydd yn darparu Cynllun Gweithredu Gyrfa Cymru ar eich cyfer.

Nodwch mai nod y grant yw helpu ymgeiswyr i gael swydd newydd ar ôl colli eu gwaith; nid y bwriad yw helpu gyda datblygu gyrfa ar ôl dod o hyd i swydd nac helpu gyda datblygu busnes.

Dim ond un cais hyfforddiant galwedigaethol y byddwn yn ei ystyried fesul ymgeisydd. Rhaid inni Ffurflen Gais Hyfforddiant Galwedigaethol (Ffurflen 1) wedi'i chwblhau a'i llofnodi cyn i'r hyfforddiant ddechrau. Gyda'r ffurflen hon, rhaid inni hefyd dderbyn Cynllun Hyfforddiant (Ffurflen 2), a honno wedi'i llofnodi gan eich darparwr hyfforddiant. Lle bo mwy nag un darparwr hyfforddiant ynghlwm wrth eich cais, rhaid cwblhau a llofnodi Cynllun Hyfforddiant ar wahân ar gyfer pob darparwr. Rhaid i'r Cynllun(iau) Hyfforddiant ddangos sut y mae'r hyfforddiant arfaethedig yn diwallu'r anghenion a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Gyrfa Cymru.

Cyn i gais am gymorth gael ei ystyried, rhaid i'ch Cynllun Gweithredu Gyrfa Cymru gael ei atodi i bob cais am hyfforddiant galwedigaethol a rhaid iddo nodi'n glir yr holl hyfforddiant sydd ei angen. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i'r farchnad lafur a rhagolygon cyflogaeth at y dyfodol wrth ystyried ceisiadau.

Weithiau, bydd angen ichi roi tystiolaeth o gymwysterau, cardiau neu drwyddedau yr ydych yn meddu arnynt eisoes gyda'ch cais. Gall eich cynghorydd Gyrfa Cymru eich cynghori am hyn.

Ni fyddwn yn cefnogi cwrs os mai'r un yw'r cwmni sy'n darparu'r hyfforddiant ag a gafodd wared ar eich swydd flaenorol. I gael cyngor pellach, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844**.

Hefyd, rhaid inni dderbyn eich llythyr colli swydd (neu Hysbysiad Colli swydd swyddogol) a thystiolaeth swyddogol o'ch Rhif Yswiriant Gwladol. Hefyd, bydd angen tystiolaeth arnom o'ch hawl cyfreithiol i fyw a gweithio yn y Deyrnas Unedig. Gall eich ymgynghorydd Gyrfa Cymru roi rhestr ichi o ddogfennau addas. Hefyd gall yr ymgynghorydd Gyrfa Cymru gopïo ac ardystio dogfennau ichi.

Rhaid i bob cais gael ei dderbyn o fewn tri mis i ddyddiad colli'ch swydd a rhaid cwblhau'r holl hyfforddiant galwedigaethol (gan gynnwys unrhyw arholiadau ac asesiadau) o fewn 12 mis i ddyddiad colli'ch swydd.

Wrth dderbyn y grant, rydych yn cytuno y byddwn yn gwneud taliadau'n uniongyrchol i ddarparwr yr hyfforddiant ar ddiwedd yr hyfforddiant. Bydd gofyn i'ch darparwr anfon anfoneb fanwl a ffurflen hawlio, gyda thystiolaeth o'r hyfforddiant a wnaethpwyd ac unrhyw gymwysterau a gafwyd.

Dylech wirio bod eich darparwr hyfforddiant yn barod i dderbyn telerau talu Llywodraeth Cymru. Efallai y bydd rhai'n mynnu cael eu talu cyn dechrau'r hyfforddiant. Os byddant yn gofyn hyn, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844** cyn talu unrhyw arian neu ymroi i'r hyfforddiant.

Ni fyddwn yn darparu grant hyfforddiant galwedigaethol ar gyfer cyrsiau dysgu o bell. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844**.

Os byddwch yn methu â mynychu cwrs, a hynny heb reswm da, neu os byddwch yn ei ganslo heb ddigon o rybudd, gallech fod yn atebol am unrhyw gostau y bydd eich darparwr hyfforddiant yn mynd iddynt. Ni all ReAct dalu unrhyw ffioedd canslo neu ffioedd absenoldeb.

Os byddwch yn methu cwrs hyfforddiant a ariannwyd gan ReAct, ni fyddwch yn gymwys i dderbyn cymorth pellach gan y rhaglen.

Fel corff llywodraethol, mae Llywodraeth Cymru wedi'i heithrio rhag talu TAW ar gostau hyfforddiant galwedigaethol. Mae Hysbysiad 701/30 Cyllid Ei Mawrhydi Ei Mawrhydi yn esbonio rheolau TAW hyfforddiant galwedigaethol. Gallwch chi neu ddarparwr yr hyfforddiant gael copi o'r Hysbysiad o **www.gov.uk/business-tax/vat**.

Noder: os cewch eich ailgyflogi gan yr un cyflogwr a gafodd wared ar eich swydd o fewn 12 mis o ddiwedd eich hyfforddiant, bydd gofyn ichi ad-dalu'r grant ReAct.

Pwysig: Gall mynychu cyrsiau hyfforddiant effeithio ar eich hawl i dderbyn budd-daliadau penodol. Dylech gael cyngor ynghylch hawl i fudd-daliadau gan y Ganolfan Byd Gwaith (yn hytrach na'r Porth Sgiliau i Oedolion).

Hunangyflogaeth

Er na ellir defnyddio cyllid ReAct i dalu costau dechrau busnes, gellir defnyddio'r dyfarniad hyfforddiant galwedigaethol i dalu am unrhyw gyrsiau galwedigaethol a fydd yn rhoi ichi'r sgiliau sydd eu hangen i hunangyflogi neu ddechrau'ch busnes eich hun.

Am ragor o wybodaeth am y cyngor sydd ar gael i'ch helpu i sefydlu busnes, cysylltwch â Llinell Gymorth Busnes Cymru ar **03000 6 03000** neu ewch i **business.wales.gov.uk**.

Ffurflen Gais 1

Gallwn ddarparu cyllid i'ch helpu i oresgyn rhwystrau penodol a fyddai fel arall yn eich atal rhag cymryd rhan mewn hyfforddiant. Mae'r dyfarniad hwn yn ychwanegol at y grant hyfforddiant galwedigaethol.

Dim ond ar y cyd â grantiau hyfforddiant galwedigaethol y mae dyfarniadau cymorth ychwanegol ar gael. Rhaid gwneud ceisiadau ar yr un adeg â'ch cais am grant hyfforddiant galwedigaethol. Nodwch y byddwn yn gofyn am fanylion llawn o'r costau arfaethedig ar adeg cyhoeddi gan na ellir ad-dalu unrhyw gost a eir iddi heb gymeradwyaeth fel rhan o'r cais. Uchafswm y grant sydd ar gael yw £200. Wele isod enghreifftiau o'r cymorth sydd ar gael:

Costau teithio eithriadol

Gallwn gyfrannu at y costau hyn os bydd angen ichi wneud trefniadau arbennig i deithio i leoliad yr hyfforddiant. Ym mhob achos, byddwn yn disgwyl i chi ddefnyddio darparwr hyfforddiant lleol. Ym mhob achos, byddwn ond yn ad-dalu am y dull mwyaf cost effeithiol o deithio. Hefyd, byddwn yn talu sylw i effaith amgylcheddol eich taith ac yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Pan fyddwch yn defnyddio'ch trafnidiaeth eich hun, byddwn yn ad-dalu 15c y filltir am hyn gan gyfrifo'r pellter gan ddefnyddio cynllunwyr taith ar y rhyngrwyd.

Llety

Bydd disgwyl ichi ddewis y llety mwyaf cost-effeithiol. Os bydd angen ichi aros dros nod i fynd ar gwrs ac nad yw teithio bob dydd yn opsiwn nac yn gost-effeithiol, fe dalwn gyfraniad tuag at gostau llety rhesymol. Bydd angen ichi ddarparu manylion y llety sydd ar gael yng nghyffiniau lleoliad yr hyfforddiant wrth wneud eich cais ac efallai y byddwn yn gofyn ichi ddefnyddio darparwr arall neu lety gwahanol os ydym yn gweld bod yna ddewis amgen mwy cost-effeithlon. Nodwch na allwn dalu am brydau, diodydd na chostau eraill, megis galwadau ffôn neu fynediad i Wi-Fi.

Offer arbennig

Os oes gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n amharu ar eich gallu i weithio, mae'n bosibl y byddwn yn gallu helpu gyda chost offer arbennig sy'n hanfodol i'ch galluogi i hyfforddi. Gellir ond ystyried cais am grant ar gyfer offer arbennig os yw'n cael ei gyflwyno gyda chais am grant hyfforddiant galwedigaethol ReAct. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844**.

Cofiwch ein bod yn defnyddio system ymgeisio a hawlio ac y bydd gofyn ichi wneud cais am grant a chael cymeradwyaeth gennym cyn mynd i unrhyw gost. Bydd angen ichi gyflwyno derbynebau am deithio, llety ac ati pan fyddwch yn barod i hawlio'ch grant cymeradwy gan na fyddwn yn gallu'ch ad-dalu hebddynt. Rhaid cyflwyno derbynebau ar ddiwedd yr hyfforddiant drwy Ffurflen Hawlio Cymorth Ychwanegol - caiff y ffurflen hon ei hanfon atoch os cymeradwyir eich cais. Nid oes angen ichi gadw derbynebau tanwydd wrth ddefnyddio'ch trafnidiaeth eich hun.

Rhaid inni dderbyn eich hawliad am gymorth ychwanegol o fewn 30 diwrnod i gwblhau'r hyfforddiant cysylltiedig neu gallwn dynnu ein cymeradwyaeth o'r grant yn ôl.

Yn ogystal â'r grant cymorth ychwanegol a ddisgrifir uchod, gallwch wneud cais am y costau canlynol hefyd os oes angen.

Gofal plant

Telir costau gofal plant ar gyfradd o £12 fesul diwrnod ar y mwyaf am un plentyn a £20 fesul diwrnod ar y mwyaf am ddau neu ragor o blant. Yr uchafswm y gellir ei hawlio yw £2,600. Rhaid i chi wneud trefniadau gyda gofalwr plant, meithrinfa ddydd neu grèche sydd wedi cofrestru â'r awdurdod lleol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch gofal plant cofrestredig, dylech gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol neu Arolygiaeth Gofal Cymru). Dylech anfon tystiolaeth ysgrifenedig atom fod y gofalwr plant, y feithrinfa neu'r crèche yn gofrestredig pan fyddwch yn gwneud eich cais am gymorth â chostau gofal plant.

Helpwch ni i'ch helpu chi

Talwch sylw gofalus i'r canlynol wrth wneud cais am gymorth drwy ReAct.

1. Meddyliwch yn ofalus am y canllawiau hyn cyn anfon eich cais atom. Os nad ydych yn siŵr am rywbeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Oedolion ar **0800 028 4844**.
2. Caniatewch hyd at 10 diwrnod gwaith o ddyddiad derbyn set gyflawn o waith papur inni ystyried eich cais. Cofiwch y bydd cais anghyflawn yn cael ei ddychwelyd i chi i'w gwblhau cyn inni ei ystyried. Bydd oedi o ganlyniad i hyn, yn amlwg. Ni fydd eich cais yn gyflawn oni anfonwch y canlynol aton ni:
   - eich Ffurflen Gais Hyfforddiant Galwedigaethol (Ffurflen 1)
   - eich Cynllun Gweithredu Gyrfa Cymru
   - eich Cynllun(iau) Hyfforddiant ReAct.
   - tystiolaeth eich bod wedi colli swydd (copi ardystiedig o'ch llythyr colli swydd sy'n cadarnhau'ch diwrnod olaf o gyflogaeth)
   - tystiolaeth swyddogol o'ch oedran, cyfeiriad, rhif Yswiriant Gwladol a'ch hawl gyfreithiol i weithio yn y Deyrnas unedig (copi wedi'i ardystio gan eich ymgynghorydd Gyrfa Cymru).
3. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro ar ffurflenni ReAct. Yn hytrach, dylech groesi allan unrhyw gamgymeriadau ac ysgrifennu llythrennau cyntaf eich enw wrth y cywiriad.
4. Ni allwn dderbyn llungopïau, na chopïau wedi'u sganio neu eu ffacsio o ffurflenni cais ReAct. Mae PDFs wedi'u hargraffu yn dderbyniol.
   Rhaid i gopïau o ddogfennau ategol gael eu hardystio gan eich cynghorydd Gyrfa Cymru.
5. Cofiwch sicrhau bod eich gwaith papur ReAct yn cael ei wirio o ran maint a phwysau yn Swyddfa'r Post er mwyn sicrhau eich bod wedi talu'r tâl postio cywir. Bydd tâl postio anghywir yn arwain at oedi o sawl wythnos o safbwynt prosesu eich cais.

Ar ôl ichi ei chwblhau, anfonwch eich ffurflen gais at:

Tîm ReAct
Llywodraeth Cymru
Llys-y-Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX

E-bost: reactenquiries@llyw.cymru

Hyfforddiant Galwedigaethol

Ewch i'ch swyddfa Gyrfa Cymru leol am wybodaeth, cyngor ac arweiniad, ynghyd ag asesiad o'ch anghenion hyfforddiant; gall ymgynghorydd Gyrfa Cymru gopio ac ardystio'ch dogfennau ategol hefyd.

Ar ôl pennu'ch anghenion hyfforddiant, bydd eich ymgynghorydd Gyrfa Cymru yn rhoi pecyn cais ReAct ichi a fydd yn cynnwys popeth sydd ei angen arnoch i wneud cais am grant, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Gyrfa Cymru.

Darllenwch y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn ofalus. Maent yn cynnwys gwybodaeth bwysig am wneud cais am grant.

Cwblhewch Ffurflen Gais 1 i wneud cais am grant hyfforddiant galwedigaethol. Cofiwch gynnwys manylion cymorth ychwanegol ee. costau teithio, os yw'n briodol.

Gofynnwch i'ch dewis ddarparwr hyfforddiant gwblhau Cynllun Hyfforddiant (Ffurflen 2) i ddarparu manylion o'ch hyfforddiant a sut y bydd yn diwallu'r anghenion a bennwyd gan Gyrfa Cymru.

Cyflwynwch y ddwy ffurflen i Dîm ReAct yn Abertawe ynghyd â'r dystiolaeth y gofynnir amdani. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau i Oedolion ar **0800 028 4844**.

Bydd y Tîm ReAct yn rhoi gwybod ichi'n ysgrifenedig am ganlyniad eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith. Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwn hefyd yn rhoi gwybod i ddarparwr yr hyfforddiant.

PEIDIWCH Â DECHRAU'R HYFFORDDIANT, NA CHYTUNO I DALU UNRHYW GOSTAU TAN I'CH CAIS ReAct GAEL EI GYMERADWYO.

Cymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr
Ffurflen Gais 3

Gallwn dalu cyfraniad o hyd at £3,000 tuag at gostau cyflogi person cymwys am 25 awr yr wythnos neu fwy.

ReAct – Pwy sy'n gymwys?

Gall rhaglen ReAct helpu busnesau i gyflogi gweithwyr sydd wedi colli eu swyddi blaenorol drwy roi cyfraniad tuag at eu cyflogau. Rhaid i'r busnes wneud y cais cyn i'r gweithiwr newydd ddechrau ei swydd. Rhaid i'r swydd newydd ddod yn sgil ehangu'r busnes, neu lenwi swydd aelod o staff sydd wedi gadael. Nid yw'r cyllid ar gael ar gyfer gweithwyr cyfredol sydd am symud o un swydd fewnol i un arall. Mae'r amodau ychwanegol canlynol yn gymwys. O ran y swydd:

- rhaid iddi fod yn swydd 16 awr yr wythnos o leiaf
- rhaid iddi beidio â bod yn swydd a gefnogir gan gyllid cyhoeddus / Ewropeaidd arall
- rhaid bod disgwyl iddi bara am 12 mis o leiaf
- rhaid iddi fod yn swydd sy'n talu Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu fwy (anogwn gyflogwyr i dalu Cyflog Byw). Nodwch fod yn rhaid gwneud taliadau drwy drosglwyddiad BACS. Ewch i **www.gov.uk** am ragor o wybodaeth am y gofyniad Isafswm Cyflog Cenedlaethol i gyflogeion
- rhaid iddi fod yn gymwys i gael cymorth o dan reoliadau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd. Golyga hyn na allwn gefnogi swyddi mewn sectorau penodol, megis pysgota, dyframaeth a chynhyrchu rhai cynhyrchion amaethyddol. Yn ogystal, ni allwn gefnogi swyddi yn y sector cyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau i Fusnesau ar **03000 6 03000**.

Bydd gofyn i fusnesau sy'n gwneud cais am gymorth ReAct ddarparu manylion unrhyw gyllid cyhoeddus y maent wedi'i gael pan fyddant yn gwneud cais.

Nodwch na allwn wneud cyfraniad tuag at gyflog person pan fo gan y cyflogwr sy'n recriwtio gyfarwyddwr yn gyffredin â'r cyflogwr sy'n cael gwared ar y gweithiwr. Byddwn yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau electronig i gael manylion cyfarwyddiaeth a pherchenogaeth y cwmni.

Hefyd, ni allwn ddarparu cymhorthdal ar gyfer cyflogi cyfarwyddwr cwmni, waeth faint o gyfarwyddwyr eraill sydd ar Fwrdd y cwmni.

Cymorth recriwtio i gyflogwyr (cyfraniad at gyflogau)

Gallwn dalu cyfraniad o hyd at £3,000 tuag at gostau cyflogi person cymwys am 25 awr yr wythnos neu fwy. Byddwn yn talu'r cyfraniad mewn pedwar cam ar dderbyn ffurflen gais sy'n cadarnhau cyflogaeth barhaus y person a recriwtiwyd. Bydd angen tystiolaeth o'r cyflogau a delir cyn inni wneud taliad. Dylai hyn fod ar ffurf copi ardystiedig o'r P11 (Taflen Ddidyniadau Cyllid a Thollau ei Mawrhydi) a/neu slipiau cyflog ar gyfer y cyfnod cyfan, gydag enw'r cyflogai wedi'i nodi'n glir.

Hefyd, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o dalu cyflogai drwy drosglwyddiad BACS, a hynny ar ffurf datganiadau banc a manylion cyflogres, gyda'r cyflogai wedi'i nodi'n glir. Yn anffodus, golyga na all fusnesau sy'n talu eu cyflogeion ag arian neu sieciau wneud cais. Mae'r pedwar cam fel a ganlyn:

- £750 ar ôl 13 wythnos mewn cyflogaeth
- £750 ar ôl 26 wythnos mewn cyflogaeth
- £750 ar ôl 39 wythnos mewn cyflogaeth
- £750 ar ôl 52 wythnos mewn cyflogaeth.

Pan gyflogir y gweithiwr yn rhan amser, rhwng 16 a 24 awr yr wythnos, telir cymhorthdal sy'n gyfwerth â 50% o'r hyn a nodir uchod.

Mewn rhai amgylchiadau, ee. os bydd patrwm gwaith y gweithiwr newydd yn newid yn ystod blwyddyn gyntaf y gyflogaeth, gellid cwtogi'r cyfraniad tuag at y cyflog i 50%, neu gellid ei dynnu'n ôl yn gyfan gwbl. Cysylltwch â'r Porth Sgiliau i Fusnesau ar **03000 6 03000** am fwy o gyngor.

Os yw'r gweithiwr newydd yn gweithio oriau afreolaidd bob wythnos a bod disgwyl iddo weithio llai na 25 awr mewn rhai wythnosau, byddwn yn talu'r cymhorthdal ar y gyfradd is. Yn yr un modd, os bydd amgylchiadau'n newid yn ystod blwyddyn gyntaf y gyflogaeth a bod eich gweithiwr newydd yn newid ei batrwm gwaith fel bod yr amser a weithir yn cwympo'n is na 25 awr am un wythnos neu fwy, bydd y grant cymeradwy'n lleihau'n awtomatig i'r gyfradd is am weddill cyfnod y rhaglen. Os bydd nifer yr oriau a weithir mewn unrhyw wythnos yn cwympo'n is nag 16 awr, caiff y grant ei dynnu'n ôl a gellid gofyn ichi ad-dalu'r hyn a dalwyd eisoes. Mewn amgylchiadau o'r fath, caiff unrhyw grant cymhorthdal am hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo ei dynnu'n ôl hefyd. Os na dderbynnir ceisiadau o fewn mis i'r dyddiad perthnasol, gellid tynnu'r cynnig yn ôl.

Cymorth hyfforddi i gyflogwyr (grant hyfforddi)

Noder: os yw'ch sefydliad wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, yr uchafswm grant ar gyfer hyfforddiant allanol seiliedig ar waith fydd 50% o gost net y TAW heb fod yn uwch na £1,000 cyhyd â bod y gweithiwr dal wrth ei waith ar ôl 26 wythnos. Dim ond ar ôl cwblhau'r hyfforddiant y gellir hawlio am daliad. Y cynharaf y gellir gwneud yr hawliad hwn yw ar y garreg filltir 26 wythnos, ond gellir ei wneud yn nes ymlaen lle nad yw hyfforddiant wedi'i gwblhau. Lle bo hyfforddiant yn mynd y tu hwnt i'r 52 wythnos o gymorth ReAct, gallwn gyfrannu tuag at 52 wythnos gyntaf yr hyfforddiant. Bydd y swm a dalwn yn seiliedig ar y costau y mae cyflogwr wedi'u talu am yr hyfforddiant, yn unol â'r amodau canlynol:

- Rhaid i hyfforddiant fod yn berthnasol i'r swydd ac wedi'i gymeradwyo gennym ni, cyn ichi fynd i unrhyw gostau a chyn dechrau'r hyfforddiant. Dylai hyfforddiant ddechrau o fewn mis i ddechrau'r gyflogaeth.
- Lle y bo'n bosibl, dylai'r hyfforddiant fod ar Lefel 2 FfCChC (neu gyfwerth).
- Gall y cyflogwr ddewis y darparwr hyfforddiant mwyaf addas. Dim ond pan fydd yr hyfforddiant a gyflawnwyd yn alinio â'r hyd a ddisgrifir ar y ffurflen gais a bod tystiolaeth o gost uniongyrchol i'r cyflogwr y byddwn yn talu.
- Ni fyddwn yn talu am gostau hyfforddi mewnol.

Ni allwn dalu am gostau cynhyrchu a gollwyd tra bo'r gweithiwr yn bresennol yn yr hyfforddiant. Ar y cam hawlio am gymorth hyfforddiant i gyflogwyr, byddwn yn gofyn am dystiolaeth o'r amser a dreuliwyd ar yr hyfforddiant ar ffurf cofnod presenoldeb wedi'i lofnodi gan y darparwr a'r gweithiwr, yn ogystal ag anfoneb gan y darparwr a thystiolaeth bod y taliad wedi'i wneud. Darperir templed gyda'r Ffurflen Hawlio Cymorth Hyfforddi i Gyflogwyr.

Rhagor o wybodaeth

Os bydd rhywun sy'n rhan o brosiect ReAct yn absennol o'r gwaith am unrhyw reswm heb dderbyn cyflog, dylid eithrio'r cyfnod hwnnw wrth gyfrifo'r dyddiad hawlio.

Bydd angen inni ystyried ceisiadau yn erbyn rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd a allai fod yn gymwys ac rydym yn trin unrhyw gymorthdaliadau fel cymorth 'de minimis' at ddibenion Cymorth gwladwriaethol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes ar **03000 6 03000**.

Er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau o dan reoliadau cyllid Ewropeaidd, bydd ein Tîm Monitro yn ymweld â chyflogwyr i wirio'r wybodaeth a roddir inni yn ystod y broses ymgeisio a hawlio. Bydd y Tîm Monitro hefyd yn annog cyflogwyr i fabwysiadu neu wella eu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth a'u systemau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i amcanion rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb i gyfleoedd cyflogi ac i atal gwahaniaethu yn y gweithle.

Gallwch gael ffurflenni yn **busnes.cymru.llyw.uk/porthsgiliau** neu drwy gysylltu â'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes ar **03000 6 03000**.

Cofiwch...

- **I fod yn gymwys, rhaid i'r gweithiwr newydd fod wedi colli ei swydd flaenorol yn y tri mis diwethaf.**
- **Rhaid i Dîm ReAct Llywodraeth Cymru gymeradwyo ceisiadau cyn i'ch gweithiwr newydd ddechrau (ni allwn ystyried ceisiadau nad ydynt cadw at y rheol hon).**
- **Byddwn yn gofyn i gyflogwr ad-dalu unrhyw gymorth ariannol a delir os na gydymffurfir â rheolau'r rhaglen.**

Helpwch ni i'ch helpu chi

Talwch sylw ofalus i'r canlynol wrth wneud cais am gymorth drwy ReAct:

1. Meddyliwch yn ofalus am y canllawiau hyn cyn anfon eich cais atom. Os nad ydych yn siŵr, cysylltwch â'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes ar **03000 6 03000**.
2. Gadewch hyd at 10 diwrnod gwaith o ddyddiad derbyn y gwaith papur cyflawn inni ystyried eich cais. Cofiwch, bydd oedi gyda'ch cais os na fyddwch yn darparu'r gwaith papur cyflawn. Ni fydd eich cais yn gyflawn oni anfonwch y canlynol aton ni:

- tystiolaeth yn dangos bod y gweithiwr newydd wedi colli ei swydd (llythyr colli swydd neu hysbysiad ffurfiol sy'n cadarnhau dyddiad gorffen y gyflogaeth). Pan fydd y Tîm ReAct yn derbyn eich cais, rhaid i'r dyddiad hwn fod yn y tri mis diwethaf. O ran unigolion sydd eisoes wedi cael dyfarniad Grant Hyfforddiant Galwedigaethol ReAct yn y tri mis diwethaf ac sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Galwedigaethol wedi'i ariannu gan ReAct, fe ganiatawn 3 mis ychwanegol o'r dyddiad colli swydd ar gyfer derbyn eich cais.
- tystiolaeth swyddogol o oedran y gweithiwr newydd, ei gyfeiriad, ei rif Yswiriant Gwladol, a'i hawl gyfreithiol i fyw a gweithio yn y DU. Gallwch gael gwybodaeth am y dystiolaeth sy'n dderbyniol drwy gysylltu â'r Porth Sgiliau ar gyfer Busnes ar **03000 6 03000**. Efallai yr hoffech fynd i'r wefan ganlynol hefyd: **https://www.gov.uk/legal-right-work-uk** .

  Sicrhewch fod unrhyw gopïau o ddogfennau a gyflwynir gyda'r ffurflen hon yn gopïau cywir o'r dogfennau gwreiddiol. Defnyddiwch y ddogfen ardystio sy'n atodedig i'r ffurflen gais.

3. Peidiwch â defnyddio hylif cywiro ar ffurflenni ReAct. Yn hytrach, dylech groesi allan unrhyw gamgymeriadau ac ysgrifennu llythrennau cyntaf eich enw wrth y cywiriad.
4. Ni allwn dderbyn llungopïau, na chopïau wedi'u sganio neu eu ffacsio o ffurflenni cais ReAct. Mae PDFs wedi'u hargraffu yn dderbyniol.
5. Cofiwch sicrhau bod eich gwaith papur ReAct yn cael ei wirio o ran maint a phwysau yn Swyddfa'r Post er mwyn sicrhau eich bod wedi talu'r tâl postio cywir. Bydd tâl postio anghywir yn arwain at oedi o sawl wythnos o safbwynt prosesu eich cais.

Ar ôl i chi ei chwblhau, anfonwch eich ffurflen gais at:

Tîm ReAct
Llywodraeth Cymru
Llys-y-Ddraig
Parc Busnes Penllergaer
Abertawe
SA4 9NX

E-bost: **reactenquiries@llyw.cymru**

Byddwn yn eich hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad eich cais o fewn 10 diwrnod gwaith.

Cymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr

Gwiriwch fod y gweithiwr newydd yn gymwys yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

Gwiriwch fod y swydd a gynigir yn gymwys yn erbyn y meini prawf a nodir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

Cwblhewch Gais Cymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr (Ffurflen 3) ar gyfer pob gweithiwr newydd cymwys.

Rhowch fanylion costau hyfforddiant allanol (os yn gymwys).

Cyflwynwch y ffurflenni i'r Tîm ReAct yn Abertawe gyda phob tystiolaeth ategol. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r Porth Sgiliau i Fusnesau ar **03000 6 03000**.

Bydd Tîm ReAct yn hysbysu ymgeiswyr yn ysgrifenedig am ganlyniad ceisiadau o fewn 10 diwrnod gwaith.

RHAID I GYFLOGAETH BEIDIO Â DECHRAU TAN I'R CAIS ReAct GAEL EI GYMERADWYO.

WG35445 | ReAct_GN_1701(E) | ISBN (Print): 978-1-4734-9850-1 | ISBN (Digidol): 978-1-4734-9647-7 | © Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

WG35445 | ReAct_GN_1701(E) | ISBN (Print): 978-1-4734-9850-1 | ISBN (Digidol): 978-1-4734-9647-7 | © Hawlfraint y Goron 2017

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.